

THEATR Y GRAND ABERTAWE

# GRAND

SWANSEA GRAND THEATRE

**Hydref - Gaeaf**
**Autumn - Winter**

**2025**

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# PANTOMEIM TEULUOL HUDOLUS ABERTAWE

Ewch ar daith hudol drwy ymuno â ni am Aladdin, y pantomeim penigamp! Ochr yn ochr ag enwogion fel **JOE PASQUALE**, **KEV JOHNS** a seren y byd theatr, **CELYN CARTWRIGHT**, bydd Aladdin yn cyflwyno set ddigidol ddisglair arall sy'n cynnwys golygfeydd animeiddiedig, ynghyd â llawer o hwyl arferol y panto. Crëwch atgofion gyda'ch anwyliaid dros y Nadolig ac archebwch eich tocynnau cyn iddynt ddiflannu!

# SWANSEA'S MAGICAL FAMILY PANTOMIME!

Take a magic carpet ride and join us for the spectacular pantomime adventure, Aladdin! Starring panto royalty **JOE PASQUALE** and **KEV JOHNS**, and returning Welsh Musical Theatre star **CELYN CARTWRIGHT**, Aladdin will feature another dazzling digital set with animated scenes, plus lots of traditional panto fun. Make magical memories with your loved ones this Christmas, and get your tickets booked before they fly out of the door!

## PRISIO / PRICING

| | |
|---|---|
| Gostyngiad/Saver | £21 - £32 |
| Safonol/Standard | £22 - £37 |
| Premiwm/Premium | £26 - £41 |
| Premiwm Uchaf/Super Premium | £27 - £44 |

## CONSESIYNAU/CONCESSION

Consesiynau'n berthnasol i berfformiadau safonol yn unig / Concs apply to standard perfs only

| | |
|---|---|
| Dros 65 oed, Dan 16 oed, Grwpiau o 10+/ Over 65yrs, Under 16's, Groups 10+ | NAMYN £3/ £3 OFF |
| Ysgolion/Schools (S)<br>1 athro am ddim ar gyfer pob 10 tocyn a brynir<br>1 free teacher with every 10 pupils | £15 |

# PERFFORMIADAU HYGYRCH ACCESSIBLE PERFORMANCES

### PERFFORMIADAU AG IAITH ARWYDDION PRYDAIN/ BSL INTERPRETED PERFORMANCES

Iau 11 Rhag am 7pm a Gwe 12 Rhag am 2pm
Thu 11 Dec at 7pm & Fri 12 Dec at 2pm

RP

### PERFFORMIAD HAMDDENOL/ RELAXED PERFORMANCE

Sad 13 Rhag am 10am
Sat 13 Dec at 10am


## RHAG / DEC 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| SAD/SAT 6 | | 2pm | 7pm |
| SUL/SUN 7 | | 1pm | 5pm |
| LLUN/MON 8 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| MAW/TUE 9 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| MER/WED 10 | 10am (S) | 2pm (S) | |
| IAU/THU 11 | | 2pm (S) | 7pm |
| GWE/FRI 12 | | 2pm (S) | 7pm |
| SAD/SAT 13 | 10am RP | 2pm | 7pm |
| SUL/SUN 14 | | 1pm | 5pm |
| LLUN/MON 15 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| MAW/TUE 16 | 10am (S) | 2pm (S) | |
| MER/WED 17 | 10am (S) | | 7pm |
| IAU/THU 18 | | 2pm (S) | 7pm |
| GWE/FRI 19 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| SAD/SAT 20 | 10am | 2pm | 7pm |
| SUL/SUN 21 | | 1pm | 5pm |
| LLUN/MON 22 | | 2pm | 7pm |
| MAW/TUE 23 | | 2pm | 7pm |
| MER/WED 24 | | 1pm | 5pm |
| IAU/THU 25 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| GWE/FRI 26 | | 1pm | 5pm |
| SAD/SAT 27 | | 1pm | 5pm |
| SUL/SUN 28 | | 1pm | 5pm |
| LLUN/MON 29 | | 1pm | 5pm |
| MAW/TUE 30 | | 1pm | 5pm |
| MER/WED 31 | | 1pm | 5pm |

## ION / JAN 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| IAU/THU 1 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| GWE/FRI 2 | DIM SIOEAU/ NO SHOWS | | |
| SAD/SAT 3 | | 2pm | 7pm |
| SUL/SUN 4 | | 1pm | 5pm |


JOE PASQUALE
KEV JOHNS CELYN CARTWRIGHT
ALADDIN
FEATURING AN INCREDIBLE DIGITAL SET WITH ANIMATED SCENES
imagine THEATRE
6 RHAG/DEC 25 - 4 ION/JAN 26
Cyngor Abertawe Swansea Council




## Psychic Sally

02.09.25 - 7.00pm


Mae hoff seicig y genedl yn dychwelyd! Mae Sally wedi bod yn swyno cynulleidfaoedd ledled y byd ers mwy na 12 mlynedd. Bydd ei sioe yn eich cyffroi ac yn eich cyfareddu.

Nod y sioe yw ymchwilio a difyrru.

The nation's favourite psychic is back! Sally's been wowing theatre audiences around the world for over 12 years. Her show will have you on the edge of your seat.

The show is investigational and for the purpose of entertainment.

**£29.00**





## An Evening with Professor Alice Roberts - Domination; the Rise and Fall of an Empire

03.09.25 - 7.00pm

Ymunwch â'r Athro Alice Roberts wrth iddi fynd â ni ar daith ymchwil i ddarganfod pwy fu'n gyfrifol am ledaenu Cristnogaeth, sut a pham. Dyma stori syfrdanol cwymp un ymerodraeth a thwf un arall.

Join Professor Alice Roberts as she takes us on an investigative journey to establish who spread Christianity, how and why; the story of the fall of an Empire and the rise of another. This story is nothing short of astonishing.

**£35.00**




## The Drifters

04.09.25 - 7.00pm

Mae The Drifters yn ôl ar daith yn y DU yn perfformio eu holl glasuron, gan gynnwys Saturday Night at the Movies, You're More Than a Number, Come on Over to my Place, Under the Boardwalk a llawer mwy.

The Drifters are back on tour in the UK performing all their classic hits, including Saturday Night at the Movies, You're More Than a Number, Come on Over to my Place, Under the Boardwalk and many more.

**£36.00**

grandabertawe.co.uk

swanseagrand.co.uk





## The Searchers Experience starring Spencer James of The Searchers

05.09.25 - 7.00pm

Spencer James fu prif ganwr The Searchers, un o fandiau enwog y 1960au, ers 37 mlynedd. Mae'r holl ganeuon a werthodd filiynau yn rhan o'r sioe hon, gan gynnwys Needles and Pins, Sweets for my Sweet, Sugar and Spice a mwy.

Spencer James has been the lead vocalist of 60s legends, The Searchers, for the past 37 years. All the million-selling hits you love feature in this show, including Needles and Pins, Sweets for my Sweet, Sugar and Spice and more.

**£29.00**





## Walk Like a Man

06.09.25 - 7.00pm

Dyma'r ffordd orau o ddathlu Frankie Valli & The Four Seasons, sy'n ail-greu'r ffalseto pwerus i'r dim. Mae'r sioe hon yn rhoi gwedd newydd ar glasuron bytholwyrdd drwy harmonïau gwych a gwerthfawrogiad go iawn o'r gerddoriaeth, ac ni ddylid ei cholli.

The ultimate celebration of Frankie Valli & The Four Seasons, recreating the iconic powerful falsetto to perfection. Putting their own spin on timeless classics with incredible harmonies and a genuine admiration for the music, this show is not to be missed.

**£29.00**




## Barry Steele's Roy Orbison Story

11.09.25 - 7.00pm

Mae Barry Steele a chast gwych o gerddorion a chantorion yn diffinio cerddoriaeth cenhedlaeth wrth ddathlu Roy Orbison, The Traveling Wilburys a llawer o ffrindiau'r canwr clodwiw.

Barry Steele and a fabulous cast of musicians and singers define the music of a generation as they celebrate the music of Roy Orbison, The Traveling Wilburys and many of The Big O's friends.

**£31.50**





## The Greatest Love of All

13.09.25 - 7.00pm

Mae'r sioe deyrnged uchel ei bri hon i Whitney Houston yn taro'r hoelen ar ei phen. Cewch eich syfrdanu gan lais Belinda Davids, a welwyd ar BGT a Showtime at the Apollo ac a enillodd Even Better Than the Real Thing ar y BBC.

Whitney Houston's legacy is brought to life in this acclaimed tribute described as "mind-blowingly spot on." Be stunned by the vocals of Belinda Davids, as seen on BGT, Showtime at the Apollo & winner of BBC's Even Better Than the Real Thing.

**£35.00**





## Michael® Starring Ben

18.09.25 - 7.00pm

Dyma gynhyrchiad theatr llwyddiannus Ben Bowman, sy'n arwain y ffordd yn y DU wrth dalu teyrnged i Michael Jackson. Mae mor driw i'r canwr campws y mae cynulleidfaoedd yn credu eu bod yn gwylio MJ.

Michael® Starring Ben is a hit theatre production starring the UK's ultimate Michael Jackson tribute star, Ben Bowman. He looks and sounds so much like the King of Pop, audiences believe they are watching MJ himself.

**£28.50 & £31.00**




## Cirque De Celine

19.09.25 - 7.00pm


Bydd Cirque De Celine yn siŵr o'ch cyfareddu! Bydd acrobatiaid ac awyrgampwyr yn cyfuno â cherddorion a chantorion talentog i berfformio caneuon poblogaidd Celine Dion megis The Power of Love, My Heart Will Go On a mwy.

Step right up, prepare to be mesmerised by Cirque De Celine! Immerse yourself as acrobats and aerialists combine with talented musicians and vocalists performing Celine Dion's biggest hits: The Power of Love, My Heart Will Go On and more.

**£31.00**

grandabertawe.co.uk

swanseagrand.co.uk





## Flowers and Friendship Bracelets - the Ultimate Pop Concert

20.09.25 - 2.00pm

Dyma gyngerdd o'r radd flaenaf sy'n talu teyrnged i bum cantores gyfoes o fri: Taylor Swift, Miley Cyrus, Olivia Rodrigo, Sabrina Carpenter a Chappell Roan. Byddwch yn barod am wledd o gerddoriaeth, dawnsio a chyffro.

The ultimate pop concert tribute with the biggest hits from five of today's hottest artistes: Taylor Swift, Miley Cyrus, Olivia Rodrigo, Sabrina Carpenter and Chappell Roan.
Get ready for a dazzling explosion of music, dance and excitement.

**£24.50**




## The Billy Joel Songbook

23.09.25 - 7.00pm

Mae'r sioe arobryn sy'n talu teyrnged i athrylith Billy Joel yn dychwelyd! Bydd Elio Pace, canwr-gyfansoddwr a phianydd clodwiw, a'i fand anhygoel yn syfrdanu cynulleidfaoedd eto wrth gyflwyno mwy na 30 cân boblogaidd.

The greatest love letter ever to the genius that is Billy Joel is back! The hugely acclaimed singer-songwriter and pianist, Elio Pace, and his incredible band are set to thrill audiences again with the award-winning show with more than 30 hits.

**£25.50 & £31.50**




## Ireland the Show

24.09.25 - 7.00pm


Yn cynnwys cast llawn perfformwyr hynod ddawnus o Iwerddon, gan gynnwys Gary Gamble, Ritchie Remo, Elaine Boyle, Keltic Storm a dawnswyr Gael Force Dance gyda'u jigiau a'u riliau llawn egni!

Featuring an all-star Irish cast of the Emerald Isle's most talented award-winning performers, including Gary Gamble, Ritchie Remo, Elaine Boyle, Keltic Storm and the Gael Force Irish dancers with their high energy jigs and reels!

**£30.00**

grandabertawe.co.uk

swanseagrand.co.uk




## Shania and Friends

25.09.25 - 7.00pm

Ymunwch â ni am deyrnged hynod fywiog i seren fwyaf canu gwlad, Shania Twain. Mae'r ail hanner yn dathlu rhai o enwogion canu gwlad y 1990au a degawd cyntaf y ganrif hon, gan gynnwys Garth Brooks, The Zac Brown Band a mwy.

Join us in this high energy tribute to the Queen of country pop, Shania Twain. The second half celebrates some of the greatest country stars of the 90s & 00s, including artists such as Garth Brooks, The Zac Brown Band and more.

**£31.00**





## Twist & Shout

27.09.25 - 7.00pm

Mae cast llawn sêr o'r West End yn cyflwyno sioe bwerus sy'n ymestyn o ddyfodiad bandiau Prydeinig i'r amlwg ym 1962 i oes yr hipis. Bydd caneuon cofiadwy gan The Beatles, The Rolling Stones, Dusty Springfield, Lulu a mwy.

An all-star cast from the West End deliver a powerhouse of a show from the explosion of Brit Pop in 1962 through to the era of Flower Power. With hits from The Beatles, The Rolling Stones, Dusty Springfield, Lulu and more.

**£30.00**



## Black is the Colour of My Voice 12+


30.09.25 - 7.30pm

Mae drama glodwiw Apphia Campbell yn adrodd stori Nina Simone wrth iddi ymdopi â marwolaeth gynamserol ei thad. Mae’r sioe’n cynnwys llawer o ganeuon mwyaf eiconig y gantores a'r ymgyrchydd hawliau sifil o fri. Enillydd: Gwobr Drama Orau, Gŵyl Ymylol Adelaide 2024.

Inspired by the life of Nina Simone and featuring many of her most iconic songs. Apphia Campbell's acclaimed play follows the successful singer and civil rights activist as she seeks redemption after her father’s untimely death. Winner: Best Theatre Award, Adelaide Fringe 2024.

**£27.00**

## The Bootleg Beatles





01.10.25 - 7.00pm

Gan gyflwyno caneuon poblogaidd o ffilmiau fel A Hard Day's Night, Help!, Magical Mystery Tour a Yellow Submarine, bydd The Bootleg Beatles a'u cerddorfa'n mynd â chi ar daith drwy yrfa'r band bendigedig ar y sgrîn fawr yn eu sioe amlgyfrwng newydd.

Featuring hits from A Hard Day's Night, Help!, Magical Mystery Tour, Yellow Submarine and Let it Be, The Bootleg Beatles and their orchestra will take you through the celluloid career of the Fab Four in their brand new multi-media stage show.

**£34.50 - £42.50**

## Killer Couples




02.10.25 - 7.00pm

Mae sioe newydd afaelgar Emma Kenny yn plymio i ddyfnderoedd cariad sy'n troi'n arswyd wrth iddi drafod byd tywyll parau gwaedlyd, o Brady a Hindley i adar o'r unlliw yn yr oes fodern.

Emma Kenny returns with an enthralling new show that plunges into the depths of love twisted into terror as she delves into the dark world of Killer Couples, from the infamous Brady and Hindley to the modern-day equivalents.

**£30.50**

## The Best of Queen - Break Free Tour





03.10.25 - 7.00pm

Byddwch yn barod am y band teyrnged mwyaf i Queen yn y DU. Bydd Majesty yn cyflwyno caneuon gorau Queen, gan fynd â chi ar daith hudol i ddathlu cerddoriaeth a doniau perfformio hoff fand roc y DU.

Get ready to Break Free with the UK's biggest Queen tribute band, Majesty. Join Majesty as it takes you on a magical journey performing The Best of Queen, celebrating the music and showmanship of the UK's favourite rock band.

**£34.00**





## The Carpenters Experience

04.10.25 - 7.00pm

Bydd sioe fwyaf blaenllaw'r DU sy'n talu teyrnged i'r Carpenters yn cynnwys llais anhygoel Maggie Nestor ac wyth cerddor o'r radd flaenaf. Bydd yn rhoi cipolwg ar ddoniau anhygoel Richard a Karen Carpenter drwy ganeuon bytholwyrdd fel Close to You, We've Only Just Begun a mwy.

The UK's leading Carpenters show, featuring the amazing voice of Maggie Nestor and eight top-class musicians, captures the sights and sounds of the amazing talents of Richard and Karen Carpenter. Featuring timeless hits, like Close to You, We've Only Just Begun and more.

**£28.00**





## The Elvis Years

11.10.25 - 7.00pm

Yn syth o'r West End, ar ôl mwy na dau ddegawd o berfformiadau gwefreiddiol, bydd y sioe deyrnged orau i Elvis yn cyflwyno mwy na 50 o ganeuon clasurol, gan gynnwys That's Alright Mama, Blue Suede Shoes, Hound Dog a mwy.

Direct from The West End, with over two decades of jaw-dropping performances, The Elvis Years is the ultimate celebration of The King. Featuring over 50 classic hits, including That's Alright Mama, Blue Suede Shoes, Hound Dog and more.

**£26.00 & £31.00**





## Stewart Lee vs The Man-Wulf 14+

15.10.25 & 16.10.25 - 7.00pm

Yn y sioe newydd sbon hon, mae Lee yn rhannu ei lwyfan â bleidd-ddyn o ddigrifwr o goedwigoedd tywyll yr isymwybod sy'n casáu dynoliaeth. Mae'r bleidd-ddyn yn gosod her gomedi ffyrnig i Lee, y digrifwr diwylliannol ddibwys a chorfforol wan.

In this brand new show, Lee shares his stage with a tough-talking werewolf comedian from the dark forests of the subconscious who hates humanity. The Man-Wulf lays down a ferocious comedy challenge to the culturally irrelevant and physically enfeebled Lee.

**£30.50**





## Women in Rock

17.10.25 - 7.00pm

Byddwch yn barod am y dathliad gorau erioed o bŵer menywod ym maes roc! Dyma'r unig sioe roc deithiol yn y byd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar fenywod roc arloesol ac mae'r cynhyrchiad campus yn cyfareddu cynulleidfaoedd.

Get ready to witness the ultimate celebration of female rock power! As the only touring rock show in the world dedicated entirely to the trailblazing women of rock, this powerhouse production is taking audiences by storm.

**£29.00**





## An Evening of Burlesque 18+

18.10.25 - 7.00pm

Mae'r sioe fwrlésg fwyaf hirhoedlog yn y DU yn dychwelyd. Mae'n cyfuno cabaret, comedi, cerddoriaeth, syrcas a bwrlésg mewn strafagansa llawn glits a glam! Bydd y sioe adloniant arbennig hon yn cynnwys dawnswyr disglair, artistiaid cabaret a sêr y llwyfan a'r sgrîn.

Roll up, roll up...the UK's longest running burlesque show returns. This ultimate variety show blends stylish cabaret, comedy, music, circus and burlesque, featuring an extravaganza of glitz and glamour! With dazzling showgirls, cabaret artists and stars of the stage and screen.

**£35.00**




## An Evening with Katie Price & Kerry Katona 18+

20.10.25 - 7.00pm

Ar ôl bod yn ffrindiau ers mwy nag 20 mlynedd, mae Katie a Kerry yn edrych ymlaen at fynd ar daith a rhannu straeon am briodi ac ysgaru, mynd yn fethdalwyr, I'm a Celebrity, pwysigrwydd teulu, sylw parhaus y wasg a gweddnewid eu bywydau.

Having been friends for over 20 years, Katie and Kerry are looking forward to hitting the road and sharing stories of marriage and divorce, bankruptcy, I'm A Celebrity, the importance of family, their constant press attention and turning their lives around.

**£28.00, Cwrdd a chyfarch ar gael / Meet & Greet available**




## Queenz - Drag Me to the Disco! 14+

21.10.25 - 7.00pm

Yn syth o'r West End yn Llundain ac ymddangosiad cyntaf y grŵp yn Las Vegas, ymunwch â Queenz am sioe drydanol sy'n cynnwys mwy o secwinau, syrpreisys a lleisiau syfrdanol nag erioed o'r blaen. Hwyl heb ei hidlo. Dawn ddi-ildio. Heb anghofio am y difas disgo!

Direct from London's West End and their Las Vegas debut, join Queenz for an electrifying live vocal drag-stravaganza, with more sequins, surprises and show-stopping vocals than ever before. Unfiltered fun. Unstoppable talent. And, of course, Disco Divas!

**£24.00 & £29.00**




## The James Brown Experience

22.10.25 - 7.00pm

Dewch i ddathlu cerddoriaeth arloesol James Brown mewn cyngerdd ddwys sy'n driw i'r canwr gwreiddiol ac sy'n cyfleu hanfod ei etifeddiaeth ddigyffelyb. Gan gynnwys cerddorfa ffync â naw aelod sydd wedi teithio gyda Jamiroquai, Amy Winehouse a mwy.

Celebrate the original soul legend in an immersive concert that goes beyond imitation and captures the essence of the Godfather's unmatched legacy. Featuring a 9 piece funk orchestra whose musicians have toured with the likes of Jamiroquai, Amy Winehouse and more.

**£25.50 - £32.50**




## Kevin Bloody Wilson 16+

24.10.25 - 7.00pm

O TikTok i YouTube ac yn ei sioeau byw enwog, mae agwedd ddi-flewyn-ar-dafod Kev yn ysbrydoli cenedlaethau newydd i chwerthin a chanu, ac yn ein hatgoffa i beidio â phoeni'n ormodol am fywyd.

From TikTok to YouTube, or his legendary live shows, Kev's unmatched DILLIGAF attitude is inspiring new generations to laugh, sing and is a welcome reminder to not take life too seriously.

**£38.50**





## Pop Princesses

25.10.25 - 12.00pm

Mae'r gyngerdd newydd sbon hon i blant yn un wahanol iawn sy'n troi tywysogesau prydferth yn sêr pop! Bydd caneuon poblogaidd gan artistiaid fel Taylor Swift a Meghan Trainor, yn ogystal ag ambell gân o'ch hoff ffilmiau a sioeau cerdd.

All-new show where beautiful Princesses become Pop Stars; this is THE children's concert with a big difference. Featuring a soundtrack of hits from artists such as Taylor Swift and Meghan Trainor, plus a few songs from all your favourite films and musicals.

**£22.50**




## T*Rextasy

25.10.25 - 7.30pm

Roedd T. Rex dan arweiniad Marc Bolan yn un o fandiau mwyaf lliwgar yr oes glam gyda chyfres o ganeuon poblogaidd drwy gydol y 1970au. Ar ôl perfformio ledled y byd ers mwy nag 20 mlynedd, mae T*Rextasy yn fwy na sioe deyrnged.

Marc Bolan's T.Rex was one of the most flamboyant bands of the glam-rock era with a string of hits throughout the '70s. T*Rextasy has performed around the world for over 20 years and has been described as "beyond the boundaries of tribute."

**£31.50**




## The Stars of Tomorrow

27.10.25 - 30.10.25 - 7.00pm

Bydd mwy nag 80 o ysgolion theatr, cantorion a grwpiau drama lleol yn uno i arddangos celfyddydau perfformio ieuenctid. Mae'r sioe hon yn llawn sêr ifanc, goleuadau disglair ac effeithiau gweledol trawiadol – peidiwch â'i cholli!

More than 80 local theatre schools, singers and drama groups unite for a spectacular showcase of youth performing arts. With astounding young talent, dazzling lights and stunning visual effects, this is truly a show not to be missed!

**£21.00**




## Dreamboys - 2025 World Tour 18+

31.10.25 - 8.00pm

Gyda choreograffi cyffrous, anthemau bywiog a digon o anweddustra, mae'r sioe hon yn siŵr o fod yn llawn hwyl, chwerthin ac atgofion bythgofiadwy. Mae pob sioe'n cynnig sesiwn cwrdd a chyfarch a chyfle i dynnu llun gyda'r cast.

With heart-pounding choreography, feel good anthems and just the right amount of naughtiness, the Dreamboys promise a show that guarantees fun, laughter and unforgettable memories. Every show there's a chance to meet and greet the cast for a photo opportunity.

**£30.50 & £33.50**




## Country Superstars

01.11.25 - 7.00pm

Mae'r sioe deyrnged fwyaf i ganu gwlad yn y byd yn cynnwys cast arobryn sy'n dynwared Patsy Cline, Johnny Cash, Billie Jo Spears, Kenny Rogers, Willie Nelson, Tammy Wynette a mwy i'r dim, ochr yn ochr â'r band Country Superstars.

The world's biggest country music tribute touring show with an award-winning cast. Features award-winning impersonations of Patsy Cline, Johnny Cash, Billie Jo Spears, Kenny Rogers, Willie Nelson, Tammy Wynette and more, along with The Country Superstars band.

**£30.50**




## In the Name of Love - The Diana Ross Story

05.11.25 - 7.00pm

Dyma hanes cronolegol gyrfa cantores sydd wedi gwerthu mwy na 100 miliwn o recordiau. Bydd dau berfformiwr rhyngwladol, Shakella Dedi (The Supremes) a Tameka Jackson (gyrfa unigol), yn dynwared Diana Ross wrth berfformio Where Did Our Love Go, Chain Reaction a mwy.

A chronological history of hits from a career culminating in over 100 million record sales. Fronted by two international Diana Ross performers, Shakella Dedi (The Supremes) & Tameka Jackson (solo career) and with all the hits, such as Where Did Our Love Go, Chain Reaction and more.

**£29.50**




## The Magic of the Bee Gees

06.11.25 - 7.00pm

Bydd y gyngerdd ysblennydd hon yn cyflwyno sain unigryw un o'r bandiau gorau erioed. Ymgollwch yng ngherddoriaeth y brodyr o'r 1960au tan y 1980au, gan gynnwys eu cyfansoddiadau ar gyfer Celine Dion, Diana Ross a Dolly Parton.

Experience the distinct sound of one of the greatest bands to have graced the stage in this concert spectacular. Immerse yourself in the brothers' music through the 60s, 70s & 80s, including hits they wrote for artists Celine Dion, Diana Ross, and Dolly Parton.

**£35.00**




## A Fairytale for Christmas

07.11.25 - 7.00pm

O gynhyrchwyr Seven Drunken Nights - The Story of The Dubliners, ymgollwch yn hwyl yr ŵyl wrth i gantorion, cerddorion a dawnswyr talentog berfformio fersiynau cyffrous o ganeuon Nadoligaidd.

From the producers of Seven Drunken Nights - The Story of The Dubliners, immerse yourself in the spirit of Christmas as talented singers, musicians and dancers perform dashing renditions of Yuletide favourites.

**£30.50 & £32.50**




## The ELO Experience

11.11.25 - 7.00pm

Dyma'r grŵp teyrnged arobryn mwyaf blaenllaw yn y byd i'r Electric Light Orchestra. Dewch i ymuno yn y dathliadau a mynd ar daith gerddorol gampus drwy amser.

The world's foremost multi award-winning tribute to The Electric Light Orchestra. Why not come along and celebrate with this incredible show which takes you on a magical musical journey through time.

**£32.00**

grandabertawe.co.uk

swanseagrand.co.uk





## Rat Pack - A Swingin' Christmas at The Sands

12.11.25 - 7.00pm

Gan gyflwyno Tom Russell Fox fel Frank Sinatra, Jim Whitley fel Sammy Davis Jr a Glenn Macnamara fel Dean Martin. Byddant yn perfformio hoff ffefrynnau'r sêr hynny, yn ogystal ag amrywiaeth o ganeuon Nadoligaidd.

Starring Tom Russell Fox as Frank Sinatra, Jim Whitley as Sammy Davis Jr and Glenn Macnamara as Dean Martin. Featuring the most-loved Rat Pack staples, including New York, New York and My Way, as well as a range of festive favourites.

**£28.00 - £38.00**





## Maximum Rhythm & Blues with The Manfreds

14.11.25 - 7.00pm

Bydd The Manfreds, gan gynnwys yr aelodau gwreiddiol Paul Jones a Tom McGuinness, yn cyflwyno eu sioe glodwiw unwaith eto. Y gwestai arbennig fydd Noel McCalla, un o gantorion yr enaid gorau ym Mhrydain, yn ôl y cylchgrawn Blues & Soul.

The Manfreds, featuring original Manfred Mann members Paul Jones and Tom McGuinness, once again bring their highly acclaimed Maximum Rhythm and Blues show. With special guest, Noel McCalla, described by Blues & Soul magazine as "One of Britain's best soul singers."

**£41.50 & £43.50**




## John Barrowman - Camp as Christmas

15.11.25 - 7.00pm

Bydd John Barrowman yn dychwelyd gyda'r sioe newydd sbon hon sy'n llawn cyffro'r Nadolig, alawon arbennig a digon o hwyl yr ŵyl! Bydd caneuon Nadoligaidd a charolau nodedig ochr yn ochr â straeon personol, anecdotau llawen ac egni hudolus John.

John Barrowman returns with this brand-new show packed with Christmas cheer, glittering tunes and plenty of seasonal sparkle! Expect a sleigh-full of your festive faves and stunning carols all wrapped up with John's personal stories, joyful anecdotes and infectious energy.

**£31.00 - £41.00 Cwrdd a chyfarch ar gael / Meet & Greets available**

## The Horne Section's Hit Show 12+




17.11.25 - 7.00pm

Sioe newydd gan y band hynod dalentog ac Alex Horne, crëwr a chyd-gyflwynydd y rhaglen arobryn Taskmaster. Dyma'r unig fand erioed i gyflwyno Never Mind The Buzzcocks. "Hiwmor anghyffredin sy'n swyno'n barhaus." The Independent.

A new show from the hugely talented band and Alex Horne, the creator and co-host of the BAFTA and National Comedy Award-winning, Taskmaster. This is the only band to ever host Never Mind The Buzzcocks. "Endlessly charming, offbeat humour." The Independent.

**£30.50**

## The Gruffalo's Child 3+

18.11.25 - 4.30pm
19.11.25 - 1.30pm & 4.30pm

Mae'r sioe hon wedi'i haddasu o lyfr lluniau arobryn Julia Donaldson ac Axel Scheffler. Un noson wyllt a gwyntog, mae merch y Gryffalo'n anwybyddu rhybuddion ei thad am y llygoden ddrwg ac yn camu i'r goedwig dywyll. Mae'n dilyn trywydd yr eira ac yn dod ar draws creaduriaid dirgel, ond a yw'r llygoden ddrwg wir yn bodoli? "Doniol, gwirion ac ychydig yn arswydus!" ★★★★ Time Out

Adapted from Julia Donaldson and Axel Scheffler's award-winning picture book. One wild and windy night the Gruffalo's Child ignores her father's warnings about the Big Bad Mouse and tiptoes out into the deep dark wood. She follows snowy tracks and encounters mysterious creatures...but the Big Bad Mouse doesn't really exist, does he? "Fun, daft and a little scary!" ★★★★ Time Out





**Oedolyn / Adult £16.00, Plentyn / Child £14.00, Tocyn teulu / Family ticket £58.00, Ysgolion / Schools £11.00**

## The Smeds & Smoos 3+


20.11.25 - 4.30pm,
21.11.25 - 1.30pm & 4.30pm

Dyma sioe wych sy'n seiliedig ar y llyfr gan Julia Donaldson ac Axel Scheffler. Ar blaned bell, nid yw'r Smis a'r Smws yn cael bod yn ffrindiau. Felly, ar ôl i un Smi ac un Smw ddianc i'r gofod gyda'i gilydd, sut bydd eu teuluoedd yn llwyddo i'w cael yn ôl? Cerddoriaeth, chwerthin ac anturiaethau rhyngblanedol gan Tall Stories, a gyflwynodd The Gruffalo a Room on the Broom i'r llwyfan.

A stellar show based on the book by Julia Donaldson and Axel Scheffler. On a far-off planet, Smeds and Smoos can't be friends. So when a young Smed and Smoo fall in love and zoom off into space together, how will their families get them back? Music, laughs and interplanetary adventures from Tall Stories, who brought The Gruffalo and Room on the Broom to the stage.




**Oedolyn / Adult £16.00, Plentyn / Child £14.00, Tocyn teulu / Family ticket £58.00, Ysgolion / Schools £11.00**





## The Rolling Stones Story

22.11.25 - 7.00pm

Dyma gyngerdd llawn egni sy'n dathlu cerddoriaeth y band roc a rôl gorau yn y byd. Dewch i fwynhau profiad sy'n wirioneddol driw i The Rolling Stones wrth ddilyn gyrfa Mick a'i griw.

This is a high energy concert celebrating the music of the world's greatest rock 'n' roll band. Let's Spend the Night Together in the company of Mick and the boys and you will experience a truly authentic Rolling Stones spectacle.

**£29.00**




## The Nutcracker

26.11.25 - 7.00pm

Mae The Nutcracker yn parhau i hudo cynulleidfaoedd o bob oed. Bydd cerddorfa fawr yn perfformio sgôr ddiamser Tchaikovsky, sy'n cynnwys rhai o'i ddarnau enwocaf. Y clasur hynod boblogaidd hwn yw'r ffordd berffaith o gyflwyno bale i bobl newydd.

Set to Tchaikovsky's timeless score, including the Waltz of the Flowers and the Dance of the Sugar Plum Fairy, The Nutcracker continues to captivate audiences of all ages. The perfect introduction to ballet and a cherished classic for devotees. Featuring a large orchestra.

**£35.00 - £42.00**




## Sleeping Beauty

27.11.25 - 7.00pm

Dyma stori hudolus o gariad, diniweidrwydd, dirgelwch a chyfaredd. Mae'r campwaith bale clasurol hwn yn dod â stori'r frwydr rhwng da a drwg mewn byd o ffantasi a rhyfeddod yn fyw. Bydd cerddorfa fawr yn perfformio sgôr drawiadol Tchaikovsky.

A magical tale of love, innocence, mystery and enchantment. Set to Tchaikovsky's breathtaking score, this masterpiece of classical ballet brings to life the battle between good and evil in a world of fantasy and wonder. With a large orchestra.

**£35.00 - £42.00**




## Chuckl. Swansea 16+

28.11.25 - 7.00pm


Byddwch yn barod am noson ddifyr gyda'n pedwar digrifwr gwych. Os ydych yn hoffi comedi hamddenol neu fyw, dyma'ch cyfle i weld rhai o'r perfformwyr enwocaf a mwyaf doniol ar garreg eich drws!

Get ready for an evening packed with laughter, featuring four outstanding comedians. Whether you're a casual comedy fan or a die-hard stand-up lover, this is your chance to see some of the biggest and funniest acts right on your doorstep!

**£25.50**

grandabertawe.co.uk

swanseagrand.co.uk




## Showaddywaddy

29.11.25 - 7.00pm

Mae Showaddywaddy, 'band roc a rôl gorau'r byd', wedi gwerthu dros 20 miliwn o recordiau! Dyma sioe ddeinamig a chalonogol sy'n cynnwys caneuon poblogaidd fel Under The Moon Of Love.

Living up to their title of 'The Greatest Rock & Roll Band In The World' Showaddywaddy have sold over 20 million records! A dynamic and uplifting show featuring hits, including Under The Moon Of Love.

**£30.00**




Discover our menu of delicious light bites and snacks

Available on show nights from 5pm


Final orders 45 minutes prior to showtime

**RESERVE YOUR TABLE**

**EMAIL HELEN@GOWERBREWERY.COM OR CALL ON 07469 718433**

GOWER BREWERY NATURALLY BEAUTIFUL ALES

@THEMALTHOUSERESTAURANT @MALTHOUSERESTAURANT GOWERBREWERY.COM




## Our Town 11+

16.01.26 - 31.01.26 - 2:30pm & 7:30pm

28.01.26 -7:30pm **£20.00 - £45.00**

31.01.26 - 2:30pm

Tref fach dawel yw Grover's Corners, yn llawn pobl gyffredin, yn byw eu bywydau beunyddiol. Maen nhw'n gweithio, yn chwerthin, yn canu, yn cwympo mewn cariad, yn magu eu plant ac yn tyfu'n hen.

Ond yn yr eiliadau yna o fywyd cyffredin bob dydd, mae gwirioneddau sy'n cyffwrdd â ni i gyd. A galw angerddol i werthfawrogi pob eiliad, yr eiliad hon, pan allwn ni.

Our Town yw campwaith y dramodydd o America, Thornton Wilder, ac yn y cynhyrchiad newydd hwn ceir y stori o safbwynt Cymreig, gan ddod â bywyd a bywiogrwydd o'r newydd sy'n taro tant â chynulleidfaoedd modern.

Grover's Corners is a quiet little town, full of ordinary folk, living everyday lives. They work, they laugh, they sing, they fall in love, raise their children and grow old.

But within those moments of ordinary, everyday life, there are truths that reach out to us all. And a passionate demand to cherish every moment, right now, while we still can.

Our Town is American playwright Thornton Wilder's masterpiece, and this new production sees the story through a Welsh lens, bringing new life and vivid resonance for modern audiences.




## A Midsummer Night's Dream

10.09.25 - 7.15pm
11.09.25 & 12.09.25 - 1.30pm & 7.15pm

Dewch i fwynhau sioe derfynol Cwmni Theatr Fluellen, sef cynhyrchiad newydd sbon o ddrama fwyaf poblogaidd Shakespeare. Cewch fwynhau perfformiad llawn hud, hiwmor a cherddoriaeth.

There's a spot of bother in the palace, there`s a spot of bother in the forest. Lord, what fools these mortals be! Fluellen's final show is a sparkling new production of Shakespeare's most popular play; a feast of magic, humour and music.

**£16.50**



## M G Boulter

11.10.25 - 7.30pm

Mae M G Boulter wedi bod yn cyfansoddi caneuon atgofus ers 2013. Mae ei ganeuon yn creu portreadau o fywydau swbwrbaidd a chymunedau glan môr, ac mae ei gerddoriaeth yn ymagwedd newydd at ganu a chyfansoddi traddodiadol.

M G Boulter has been creating rich and evocative stories and songs since 2013. He creates vignettes of suburban lives and seaside communities and is a contemporary voice in the long tradition of the singer-songwriter.

**£15.00**




## A Visit 12+

15.10.25 - 7.30pm

Dyma ddrama am drosedd a chyfiawnder a phwy sy'n gofalu am blant pan fydd mam yn mynd i'r carchar. Mae Papertrail a Siân Owen wedi creu drama afaelgar wedi'i hysbrydoli gan straeon bywyd y menywod a'r bobl ifanc y maent wedi gweithio gyda nhw.

Crime, justice and childcare, and who takes care of the kids when a mum gets sent to prison. Papertrail & Siân Owen have created a gripping piece of theatre inspired by the real life stories of the women and young people they've worked with.

**£18.00, Consesiynau ar gael / Concs available**




## Matt Richardson - Brash 18+

06.11.25 - 7.30pm

Mae ceisio ymdopi â byd llawn plant ffrindiau, morgeisi a bywyd pentref yn her i'r dyn na all ymatal rhag creu cynnwrf. Sut gall rhywun heneiddio mewn modd parchus pan fydd hynny'n groes i'w natur?

Attempting to navigate a world of mate's kids, mortgages and village life is proving a challenge for the guy who can't resist causing a scene. How do you age gracefully when it's at odds with all your personality traits?

**£19.00**




## Hayley Ellis - Silly Mare 18+

07.11.25 - 7.30pm

Dathlodd Hayley ei phen-blwydd yn 35 oed bum mlynedd yn ôl – ymunwch â hi wrth iddi gyrraedd canol oed, gan feddu ar obsesiwn â throseddau go iawn, bodloni (gan amlaf) ar fod yn ddibriod, a phrofi arswyd atal cenhedlu wrth heneiddio.

Hayley literally just celebrated her 35th birthday five years ago... join her as she navigates middle age: true crime obsession, the joys of remaining (mostly) happily unmarried and the truly horrific journey of later-in-life contraception.

**£15.00**




## Carl Donnelly - Another Round 15+

08.11.25 - 7.30pm

Ymunwch ag un o ddigrifwyr gorau'r DU wrth iddo rannu'r diweddaraf â chi am ei brofiad o fod yn dad priod canol oed ag wlserau'r stumog, corun moel, a hanes chwilio'r rhyngrwyd sydd bellach yn cynnwys pants anymataliaeth.

One of the UK's finest comedians brings you up to speed on how he's settling into being a married middle-aged father with recurring stomach ulcers, a bald patch and an internet search history that now includes 'anti-leakage boxer shorts'.

**£18.00**





## Brian Bilston & The Catenary Wires

14.11.25 - 8.00pm

Mae Brian Bilston yn un o'r beirdd mwyaf poblogaidd yn y DU. Mae The Catenary Wires yn cynnwys: Amelia Fletcher, Rob Pursey ac Ian Button. Defnyddiodd Rob 13 o gerddi Brian i greu alawon a threfniannau, sy'n cael eu chwarae gan fand llawn.

Brian Bilston is one of the UK's most popular poets. The Catenary Wires comprise: Amelia Fletcher, Rob Pursey and Ian Button. Rob took thirteen of Brian's poems and created melodies and arrangements, which are then played by a full band.

**£26.50**




Lighthouse Theatre presents

## Casablanca - A Live Radio Play

06.12.25 - 2.30pm & 7.30pm

Mae rhyfel byd yn mynd rhagddo, ond mae un dyn yn cysgodi ei hun ac eraill mewn bar ym Moroco. Daw ffoadur o Ewrop sy'n gweddnewid ei fywyd ac yn peri iddo ystyried beth fyddai'n peri iddo aberthu popeth.

The world is at war, but one man shields himself and others in a bar in Morocco. Refugees come from Europe. One of them walks into his bar... his world is turned upside down...for what would you sacrifice everything?

**£13.00, Consesiynau / Concessions £11.00**



Perfformiad yn / Performed in The Malthouse Bar

Lighthouse Theatre presents

## A Child's Christmas in Wales

08.12.25 & 09.12.25 - 12.30pm

'Roedd un Nadolig mor debyg i'r llall...'

Bydd Adrian Metcalfe o Lighthouse Theatre yn dod â drama enwog Dylan Thomas yn fyw gyda'r perfformiad unigol hwn. Dyma'r ffordd berffaith o ddathlu'r cyfnod cyn y Nadolig.

'One Christmas was so much like another...'

Lighthouse Theatre's Adrian Metcalfe brings Dylan Thomas' classic to life in this solo performance. The perfect start to Christmas.

**£10.00**



Lighthouse Theatre presents

## A Child's Christmas - A Christmas Story

13.12.25 - 12.30pm

Mae A Child's Christmas yn rhaglen ddwbl sy'n cynnwys dwy stori Nadoligaidd wych gan ddau Gymro enwog: Dylan Thomas a Richard Burton. Yr adroddwyr fydd yr actorion arobryn Adrian Metcalfe a James Scannell.

A Child's Christmas is a double bill of two wonderful Christmas stories by two famous Welshmen: Dylan Thomas' A Child's Christmas in Wales and Richard Burton's A Christmas Story. Told by award-winning actors, Adrian Metcalfe and James Scannell.

**£13.00, Consesiynau / Concessions £11.00**







O 03.09.25 bydd Uchelgais Grand yn cynnal tymor newydd o Future Blood Abertawe, prosiect datblygu cerddoriaeth ieuenctid i bobl ifanc 14 i 21 oed. Mae hwn yn gyfle gwych am ddim i'r rheini sy'n chwarae, yn canu neu'n ysgrifennu gwrdd â cherddorion eraill. Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru, e-bostiwch info@grandambition.wales

From 03.09.25 Grand Ambition will be running a new term of Future Blood Swansea, a youth music development project for ages 14-21. This is a brilliant free opportunity for those who play, sing or write to collaborate with other musicians. For more info or to register email info@grandambition.wales

UCHELGAIS GRAND AMBITION

Cefnogir gan Supported by Cyngor Abertawe Swansea Council

anthem.

## Talebau Theatr

Rhowch gyfle i'ch anwyliaid fwynhau noson o adloniant o'r radd flaenaf yn un o leoliadau gorau Cymru - Theatr y Grand Abertawe / Neuadd Brangwyn.

## Theatre Vouchers

Treat your loved ones to an evening of first-class entertainment at one of Wales' premier venues - Swansea Grand Theatre / Brangwyn Hall.

## Gwybodaeth

I archebu tocynnau ac am wybodaeth i'ch helpu i drefnu'ch ymweliad, ewch i **grandabertawe.co.uk / cy.brangwyn.co.uk**

Oriau agor y Swyddfa Docynnau:

10.00am - 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ar ddiwrnodau pan nad oes sioe.

10.00am tan 15 munud ar ôl i'r llenni godi ar ddiwrnodau sioe.

Ar gyfer sioeau dydd/nos Sul, mae'r Swyddfa Docynnau ar agor 1 awr cyn i'r sioe ddechrau.

Ffoniwch **01792 475715** neu e-bostiwch **SwyddfaDocynnau@abertawe.gov.uk**

## Information

To book your tickets and for information to help plan your visit please go to **swanseagrand.co.uk / brangwyn.co.uk**

Box Office opening hours:

10.00am - 4.00pm Monday to Saturday on non-show days.

10.00am until 15 minutes after curtain up on show days.

For Sunday shows, Box Office is open 1 hour before the start time.

Call on **01792 475715** or email **boxoffice@swansea.gov.uk**

## Dilynwch ni ar / Follow us on...



# Ar ddod / Forthcoming







**Operation Mincemeat** 21.09.26 - 26.09.26